

## Diweddariad Ystadegau ac Ymchwil Tai Llywodraeth Cymru (Awst 2020)

Wrth i'r galw gynyddu ar gyfer ystadegau a data i fesur effaith pandemig coronafirus (COVID-19), bu'n rhaid i ni newid ein harferion casglu a chyhoeddi data, gan ganolbwyntio ymdrechion ar ddadansoddiadau sy'n flaenoriaeth. Mae ein [datganiad](#) yn egluro hyn ymhellach ac, yn unol â [chanllawiau gan y Swyddfa Rheoleiddio ystadegau](#), gwnaed penderfyniadau i ganslo neu ohirio rhai cyhoeddiadau.

### Cyhoeddiadau arfaethedig ar gyfer yr Hydref

Dyma ddiweddariad o'n cyhoeddiadau arfaethedig ar gyfer yr Hydref. Nodwch y gallai hyn newid. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud hyd yma ynghylch cyhoeddiadau o Ragfyr 2020 ymlaen lle'r oedd gweithgarwch casglu data tai cysylltiedig wedi'i drefnu ar gyfer yr Hydref.

| Teitl                                                                | Dyddiad Cyhoeddi  |                                                                                                                                                                                             |
|----------------------------------------------------------------------|-------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Barn a phrofiadau tenantiaid o'r sector rhentu preifat               | 25 Awst 2020      | Mae'r ymchwil yn archwilio boddhad â'r sector rhentu preifat; yr ystyriaethau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i eiddo rhentu preifat newydd; a'u barn ar ddiogelwch tenantiaeth. |
| Digartrefedd Statudol, 2019-20                                       | Medi 2020         | Wedi'i ohirio o 30/07/20 oherwydd data anghyflawn a'r broses sicrwydd ansawdd.                                                                                                              |
| Digartrefedd Statudol, Ebrill- Mehefin 2020 & Gorffennaf - Medi 2020 | 10/12/2020        | Rydym yn bwriadu casglu data ar gyfer cyfnodau Ebrill – Mehefin 2020 a Gorffennaf - Medi 2020 ar yr un pryd a'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr.                                                    |
| 2020 Amcangyfrif o'r stoc annedd                                     | 17/09/2020        |                                                                                                                                                                                             |
| Cymorth i Brynu Cymru, 2019-20 & Ebrill-Mehefin 2020                 | Medi 2020         | Wedi eu gohirio ers yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd blaenoriaethau eraill.                                                                                                              |
| Cymorth i Brynu Cymru, Gorffennaf - Medi 2020                        | 22/10/2020        |                                                                                                                                                                                             |
| Darpariaeth Tai Fforddiadwy 2019-20                                  | Yn gynnar yn 2021 | Bwriadwn anfon ffurflenni casglu data allan ym mis Medi (gohiriwyd o'r Haf).                                                                                                                |
|                                                                      |                   |                                                                                                                                                                                             |
| <i>Stoc a Rhent tai Cymdeithasol, 2020-21</i>                        |                   | <i>Wedi'i ohirio.</i>                                                                                                                                                                       |

|                                                      |  |                                                 |
|------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------|
| <i>Gwerthiant Landlordiaid Cymdeithasol, 2020-21</i> |  | <i>Wedi'i ohirio.</i>                           |
| <i>Safon Ansawdd tai Cymru 2019-20</i>               |  | <i>Wedi'i ohirio.</i>                           |
| <i>Adeiladu tai (data chwarterol)</i>                |  | <i>Wedi ei atal. Casglu ar ddiwedd 2020-21.</i> |

## Cyhoeddiadau eraill

### Rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol wedi eu diwygio (seiliedig ar 2018)

Ar 28 Mai 2020, tynnodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sydd wedi'u seilio ar 2018 a'r amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol sydd wedi eu seilio ar 2018 o wefan Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) eu bod wedi canfod gwall yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018.

Ar 20 Mehefin, cyhoeddwyd [blog](#) gennym yn rhoi manylion y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol (sail-2018) sydd wedi'u cywiro.

Cyhoeddwyd yr amcanestyniadau [poblogaeth](#) ac [aelwydydd](#) is-genedlaethol diwygiedig (sail-2018) ar 4 Awst 2020.

### Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai (sail-2019)

Cyhoeddwyd yr erthygl ystadegol "[Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yng Nghymru \(sail-2019\)](#)" ar 13 Awst ac mae'n cyflwyno amcangyfrifon ar sail 2019 o'r angen cyffredinol am dai ychwanegol o 2019/20 i 2038/39. Mae'r ffigurau'n ymwneud â'r angen am unedau tai ychwanegol ac maent yn seiliedig ar:

- Amcangyfrifon o anghenion presennol nas diwallwyd.
- Angen sy'n codi o'r newydd (amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2018).

Cyflwynir data ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'r ffigurau hyn yn ddiweddariad ar yr amcangyfrifon sail-2018 o'r angen ychwanegol am dai a gyhoeddwyd yn 2019.

Ategir yr erthygl ystadegol hon gan ddata a gyhoeddir ar StatsCymru yn ogystal ag adnodd Excel lle gellir newid yr holl ffynonellau data a thybiaethau sylfaenol i arsylwi ar yr effaith ar yr amcangyfrifon o unedau tai ychwanegol wedi'u rhannu yn ôl deiliadaeth.

### Dangosfwrdd cyflenwad tai

Cyhoeddwyd [dangosfwrdd rhyngweithiol am ystadegau cyflenwad tai](#) yn ddiweddar. Mae'r dangosfwrdd yn dwyn ynghyd gwybodaeth am amcangyfrifon stoc anheddau, adeiladu tai newydd, tai fforddiadwy a'r angen am dai -ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol.

Rydym yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad y dangosfwrdd (drwy [ystadegau.tai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.tai@llyw.cymru)).

## **Cyhoeddiad Swyddfa Ystadegau Gwladol: 'Coronafeirws a marwolaethau pobl ddigartref'**

Ddydd Gwener 10 Gorffennaf, cyhoeddodd SYG adroddiad ar '[Coronafeirws a marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr: hyd at 26 Mehefin 2020](#)'. Datblygwyd y rhain yn gyflym yn seiliedig ar ddata o gofnodion cofrestru marwolaeth a ddelir gan SYG.

## **Archwiliad cydymffurfio - Ystadegau cysgu allan**

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Swyddfa Rheoleiddio ystadegol archwiliad cydymffurfiaeth o'r ystadegau ar Gyfrif y rhai sy'n cysgu allan yng Nghymru. Cyhoeddwyd eu [canfyddiadau](#) ar 1 Gorffennaf.

## **Cyfrifiad Poblogaeth 2021**

Mae'r ddeddfwriaeth i gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ar **21 Mawrth 2021** bellach yn ei lle. Daeth Gorchymyn Cyfrifiad (Cymru a Lloegr), sy'n pennu dyddiad y cyfrifiad, yn gyfraith ym mis Mai 2020 yn dilyn dadleuon a phleidleisiau yn nau Dŷ'r Senedd.

Mae Rheoliadau'r cyfrifiad ar gyfer Lloegr a Chymru hefyd wedi'u gwneud a'u gosod gerbron Ty'r Cyffredin a'r Senedd erbyn hyn. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys llawer o fanylion gweithredol y cyfrifiad, yn ogystal â chopïau union o'r holiaduron papur a disgrifiadau o'r holiaduron ar-lein. Maent ar gael i'w gweld ar-lein:

- [Rheoliadau Cyfrifiad \(Lloegr\) 2020](#)
- [Census \(Wales\) Regulations 2020](#) a [Rheoliadau'r Cyfrifiad \(Cymru\) 2020](#)

Bydd Cyfrifiad 2021 yn casglu gwybodaeth am y math o lety, deiliadaeth a nifer yr ystafelloedd gwely.

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [flog](#) yn ddiweddar yn esbonio sut maent yn bwriadu defnyddio data gweinyddol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiog i gyfrif nifer yr ystafelloedd ar gyfer cyfrifiad 2021.

## **Cyfarfod nesaf y Grwp Gwybodaeth Tai**

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy Teams ar 24 Medi 2020, 13:30-16:00. Bydd agenda'n dilyn yn fuan.

## **Ymholiadau**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y newidiadau uchod, neu os hoffech gael cyngor ystadegol ar ddefnyddio data tai (gan gynnwys, er enghraifft, os nad oes data ar gael), cysylltwch â: [ystadegau.tai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.tai@llyw.cymru)